**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 14 Chwefror 2023 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 1 Mawrth 2023 |

## PWNC

Eitem 6: YSGOL HIRAEL

## PENDERFYNIAD

1.1 Caniatawyd neilltuo £3,000,000 o gyfanswm o £18m o gyllideb Gwedd 2 Bangor, Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (Band B) er mwyn buddsoddi yn Ysgol Hirael. Byddai'r gyllideb yn ddarostyngedig i gyflwyno achos fusnes lwyddiannus i Lywodraeth Cymru.

1.2 Cytunwyd i'r Cabinet ragdybio adolygiad y Cynllun Asedau drwy gadarnhau cyfraniad o £1,050,000 o'r Cynllun Asedau ar gyfer 35% o arian cyfatebol i wireddu prosiect Ysgol Hirael.

1.3 Yn ddarostyngedig i benderfyniad y Cabinet yn 1.1 uchod, ac yn dilyn hynny, gefnogaeth Llywodraeth Cymru i drosglwyddo'r gyllideb ar gyfer Ysgol Hirael, caniatawyd llunio a chyflwyno achos fusnes i Lywodraeth Cymru er mwyn rhyddhau'r arian.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Amgylchedd dysgu ac adnoddau'r ysgol yn anaddas
Bellach, nid yw'r adnoddau a'r amgylchedd ddysgu yn Ysgol Hirael yn cwrdd â gofynion yr 21ain ganrif oherwydd bod cyflwr yr ysgol wedi dirywio. Byddai costau cynnal a chadw yn debygol o gynyddu yn sgil diffyg buddsoddiad amserol sydd yn rwystr i'r ysgol allu cyflwyno modelau dysgu arloesol.

Sicrhau buddsoddiad o fewn amserlen Band B
Byddai sicrhau cefnogaeth y Cabinet er mwyn symud ymlaen gydag Ysgol Hirael fel prosiect yn galluogi'r Adran Addysg i lunio a chyflwyno achos fusnes ar gyfer Ysgol Hirael yn ddi-rwystr (gan nad oes proses statudol nac ad-drefnu).

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â’r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 14 Chwefror 2023 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 1 Mawrth 2023 |

**PWNC**

Eitem 7: CYNLLUN ARBEDION 2023/24 – 2024/25

---

**PENDERFYNIAD**

- Cymeradwywyd yr arbedion effeithlonrwydd a restrir yn Atodiad A (£6.4M) fel gwedd gyntaf o arbedion y gallwn eu defnyddio fel cyfraniad tuag at ein bwlch cyllidol yn 2023/24 – 2024/25.
- Cytunwyd i gomisiynu gwaith pellach i sefydlu'r wedd nesaf o arbedion a thoriadau (oddeutu £1.6M - £2.2M) cyn gosod cyllideb 2024/25.
- Cytunwyd i wneud darpariaeth o £1.6M i gyfarch y lefel risg sydd yn ynghlwm a gwireddu y cynllun arbedion effeithlonrwydd.
- Dirprwywyd yr hawl i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet Cyllid, i wneud addasiadau i'r Cynllun Arbedion hwn wrth i aeddfedrwydd y cynlluniau a restrir yn Atodiad A ddatblygu, o fewn y cyfansymiau cyllidol a nodir isod.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae'r lefelau chwyddiant eithriadol presennol, yn arbennig yr effaith ar gyflogau a chostau ynni, ynghyd â'r cynnydd sylweddol yn y galw am rhai gwasanaethau megis digartrefedd oherwydd yr argyfwng tai cenedlaethol, yn golygu fod costau'r Cyngor wedi cynyddu'n sylweddol mewn cyfnod byr.
Rydym hefyd yn wynebu sefyllfa lle bo ambell i adran yn gorwario, yn bennaf oherwydd anallu i gyflawni cynlluniau arbedion y gorffennol a chynnydd parhaus yn y galw am eu gwasanaethau.

Yn dilyn ystyriaeth fanwl i'r ffactorau uchod, oni bai fod newid arwyddocaol cyn cyhoeddi setliad Llywodraeth Leol ar gyfer 2024/25, rydym yn gallu cyfrifo y bydd ein bwlch ariannol ar gyfer y ddwy flynedd nesa oddeutu £12.4M.
Er mwyn cynllunio'n ddarbodus mae angen i ni gynnwys rhagdybiaeth risg rhesymol yn y Cynllun Arbedion hwn ac felly argymhellaf ein bod yn rhoi £1.6M o'r cyfanswm o £8M-£8.6M y byddwn angen ei ganfod fel swm i'w ddynodi "dan risg".

---

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â’r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 14 Chwefror 2023 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 1 Mawrth 2023 |

## PWNC

Eitem 8: CYLLIDEB 2023/24

## PENDERFYNIAD

Argymhellwyd i'r Cyngor (yn ei gyfarfod ar 2 Mawrth 2023) y dylid:

1. Sefydlu cyllideb o £317,880,310 ar gyfer 2023/24 i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £227,842,930 a £90,037,380 o incwm o'r Dreth Cyngor (sy'n gynnydd o 4.95% ar dreth anheddau unigol).

2. Sefydlu rhaglen gyfalaf o £67,780,150 yn 2023/24 i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn Atodiad 4 i'r adroddiad.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Rhaid i'r Cyngor osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2023/24.
Eleni cynigir sefydlu rhaglen gyfalaf gwerth £67.8m yn 2023/24, fel sydd wedi'i osod allan yn Atodiad 4.

Mater i'r Cyngor Llawn yw ystyried y gyllideb a gosod y Dreth Cyngor ar gyfer 2023/24 ar sail y materion a nodir yn yr adroddiad dilynol. Mae'r adroddiad manwl yma'n nodi'r ffactorau sydd yn dylanwadu ar y gyllideb refeniw arfaethedig ar gyfer 2023/24, ac yn amlinellu'r prif newidiadau ers 2022/23.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 14 Chwefror 2023 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 1 Mawrth 2023 |

**PWNC**

Eitem 9: CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2023-28

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 (y Cynllun) i'w gyflwyno i'r Cyngor ar y 2il o Fawrth 2023.

Cymeradwywyd y gwelliant a gynigiwyd i ychwanegu'r frawddeg ganlynol i Faes Blaenoriaeth 5 yn y Cynllun: "*Sicrhau mynediad i wybodaeth a chyfleusterau hamdden, diwylliannol a chelfyddydol o safon"* er mwyn adlewyrchu gweledigaeth y Cabinet.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Er mwyn sicrhau fod cytundeb ar gynnwys y Cynllun a'i fod yn adlewyrchu'r blaenoriaethau sydd wedi eu hadnabod er argymell bod y Cyngor Llawn yn ei fabwysiadu yn ei gyfarfod ar y 2ail o Fawrth 2023.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 14 Chwefror 2023 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 1 Mawrth 2023 |

**PWNC**

Eitem 10: STRATEGAETH CYFRANOGIAD – DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021

**PENDERFYNIAD**

Argymhellwyd y Strategaeth Cyfranogiad ddrafft i gyfarfod y Cyngor llawn ar 02/03/2023 er mwyn ei fabwysiadu.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, rhaid i'r Cyngor annog pobl leol i gyfranogi pan mae'n gwneud penderfyniadau a chyhoeddi Strategaeth Cyfranogiad sy'n nodi'r ffyrdd y caiff pobl leol eu hannog i gymryd rhan ym mhroses y Cyngor o wneud penderfyniadau.

Gofynnir i'r Cabinet ystyried:

- Cynnwys y strategaeth – a yw'n glir ac yn ddealladwy ac yn cyflawni'r gofyn?
- A oes ymateb digonol wedi bod i'r sylwadau sydd wedi codi o'r ymgynghoriad cyhoeddus?

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 14 Chwefror 2023 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 1 Mawrth 2023 |

**PWNC**

Eitem 11: CYNLLUN ECONOMI YMWELD CYNALIADWY GWYNEDD AC ERYRI

**PENDERFYNIAD**

- Cymeradwywyd Cynllun Strategol Gwynedd ac Eryri 2035 fel Cynllun Strategol ar gyfer yr Economi Ymweld yn yr ardal.

- Cymeradwywyd sefydlu Partneriaeth Gwynedd ac Eryri 2035 yn ogystal â'r gweithdrefnau a'r strwythurau priodol fydd eu hangen er mwyn datblygu, gweithredu a monitro'r Cynllun Strategol, Cynllun Gweithredu Gwynedd ac Eryri 2035 a'i fesuryddion perthnasol.

- Cytunwyd i ychwanegu bod angen dirprwyo'r hawl i'r Arweinydd, mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr, i gadarnhau cylch gorchwyl y ddau gorff.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae Cyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi adolygu eu blaenoriaethau a'u cynlluniau ar gyfer yr economi ymweld yn yr ardal.

Ym mis Tachwedd 2021 fe arwyddodd Cyngor Gwynedd ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol Gytundeb o Ddealltwriaeth. Amcan y Cytundeb o Ddealltwriaeth yw cydweithio'n effeithiol ac effeithlon mewn partneriaeth i wireddu gweledigaeth ac egwyddorion Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035 i warchod a hyrwyddo gwerthoedd arbennig yr ardal.

Cafodd y Cynllun drafft ei gymeradwyo i'w gyflwyno i strwythurau democrataidd y Cyngor a'r Parc Cenedlaethol gan y Bwrdd Llywio ar y cyd ar 21 Rhagfyr 2022.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 14 Chwefror 2023 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 1 Mawrth 2023 |

**PWNC**

Eitem 12: CRONFA FFYNIANT BRO – CYNLLUN LLEWYRCH O'R LLECHI

**PENDERFYNIAD**

- Derbyniwyd llythyr cynnig, am arian Cronfa Ffyniant Bro Llywodraeth Prydain, i weithredu cynllun Llewyrch o'r Llechi ar y cyd a phartneriaid o fewn y Dyffrynnoedd Llechi.
- Awdurdodwyd y Pennaeth Economi a Chymuned mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cyllid a Phennaeth Cyfreithiol i gytuno ar y trefniadau cytundebol a gweithredu a'r pecyn ariannol cyflawn gyda partneriaid.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Cyflwynwyd tri cais sylweddol gan yr Adran Economi a Chymuned ac Adran Amgylchedd i Gronfa Ffyniant Bro, Llywodraeth Prydain. Ni fu cais Bywiogi Bangor na chais Coridor Gwyrdd Ardudwy yn llwyddiannus, ond bu cais Llewyrch o'r Llechi yn llwyddiannus. Gofynnir am yr hawl i dderbyn y cynnig gan Lywodraeth Prydain ag i ymgymryd â threfniadau i weithredu'r cynllun.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan yr Aelod Cabinet Amgylchedd am ei fod yn Gadeirydd Partneriaeth Ogwen, un o'r partneriaethau sy'n rhan o'r cais. Gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 14 Chwefror 2023 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 1 Mawrth 2023 |

**PWNC**

Eitem 13: ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS ECONOMI A CHYMUNED

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol a thryloyw mae gofyn i Aelod Cabinet adrodd ar berfformiad y maes y mae'n gyfrifol amdano i'r Cabinet yn gyfnodol.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 14 Chwefror 2023 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 1 Mawrth 2023 |

**PWNC**

Eitem 14: ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS GEFNOGAETH CORFFORAETHOL A CHYFREITHIOL

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol a thryloyw mae gofyn i Aelod Cabinet adrodd ar berfformiad y maes y mae'n gyfrifol amdano i'r Cabinet yn gyfnodol.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 14 Chwefror 2023 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 1 Mawrth 2023 |

**PWNC**

Eitem 15: ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS DAI AC EIDDO

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol a thryloyw mae gofyn i Aelod Cabinet adrodd ar berfformiad y maes y mae'n gyfrifol amdano i'r Cabinet yn gyfnodol.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.